
Archifau Gwent Archives

Jerwsalem Newydd
Datgloi Archifau Tref Newydd

Gwasanaeth Archifau Achrededig
Accredited Archive Service




# Tref Newydd Cwmbrân:
## Archwilio cynnwys Archif Tref Newydd Cwmbrân



# Contents


**Cyflwyniad** 1

**Casgliad Corfforaeth Datblygu Cwmbrân yn Archifau Gwent** 1

**Beth alla i ddod o hyd iddo yn y casgliad?** 3

Tai 3

Cynllunio/Dylunio 3

Cynllunio trefol 4

Creu cymuned 5

Celf Gyhoeddus ac ymdeimlad o le 5

Bywyd bob dydd 5

Chwaraeon 6

Gweithio yn y Dref Newydd 6

Pwysigrwydd y tu hwnt i Went 7

**Sut i gael mynediad i'r casgliad** 8

**Trefi newydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon** 8

**Deunyddiau darllen pellach ac adnoddau eraill** 8

**Contact Us** 9


# Cyflwyniad

Roedd Cwmbrân yn rhan o'r mudiad Trefi Newydd ar ôl y rhyfel, a geisiodd ailadeiladu Prydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd a gwireddu gweledigaeth “Jerwsalem Newydd” ochr yn ochr â diwygiadau pwysig eraill fel creu'r GIG. Roedd Cwmbrân a gafodd ei chynllunio i fod yn gymuned hunangynhwysol, yn cyfuno cartrefi, swyddi, ysgolion, siopau a mannau gwyrdd fel bod popeth oedd ei angen yn ddyddiol o mewn cyrraedd hawdd. Yn wahanol i'r mwyafrif o drefi newydd eraill, roedd sylfaen ddiwydiannol gref eisoes yng Nghwmbrân, yn cynnwys tua 20 o ffatrïoedd yn cyflogi tua 6,000 o bobl a phoblogaeth o 13,000 ym 1949. Nod y datblygiad newydd felly oedd integreiddio'r cymunedau hen a newydd, gan ddarparu tai, cyfleusterau modern a mannau agored deniadol, wedi eu cynllunio’n dda.

# Casgliad Corfforaeth Datblygu Cwmbrân yn Archifau Gwent

Yma yn Archifau Gwent, mae gennym gofnodion Corfforaeth Datblygu Cwmbrân, y corff a benodwyd gan y Llywodraeth i ddylunio a chreu'r Dref Newydd. Mae'r casgliad yn cynnwys dogfennau gwaith y Gorfforaeth, gan gynnwys y rhai sy'n cofnodi gweinyddiaeth y gorfforaeth, sef cofnodion, papurau ac adroddiadau’r bwrdd, ond hefyd ystod eang o eitemau eraill gan gynnwys llyfrynnau cyhoeddusrwydd, mapiau, cynlluniau, lluniau pensaernïol, a chasgliad cyfoethog o ffotograffau.

Mae archif Corfforaeth Datblygu Cwmbrân (D2603) yn cynnwys tua 4,000 o eitemau, sy'n deillio o gyfnod creu'r Gorfforaeth ym 1949 i'r adeg y caewyd hi yn ffurfiol ym 1988. Mae'r rhain yn cael eu storio mewn dros 330 o flychau, 97 cyfrol ac 11 cynllun ac maent yn cynnwys 39 cyfrol o gofnodion, 177 adroddiad, 17 cofrestr, tua 3,000 o ffeiliau gohebiaeth, 132 cyfrol o erthyglau ac ati o bapurau newydd, 151 o ffotograffau ac 14 o albymau ffotograffau, ac 20 llyfryn, 5 set o sleidiau, 187 o fapiau a chynlluniau a bron i 200 o weithredoedd eiddo.



*D2603/A/C/3486 ffotograff o fodel o Cwmbrân*

# Beth alla i ddod o hyd iddo yn y casgliad?

Mae cofnodion Corfforaeth Datblygu Cwmbrân yn cwmpasu eu hanes cyfan, o'r cyfnod y daethant i fodolaeth ym 1949 tan y cyfnod y cawsant eu diddymu ym 1988 a thu hwnt. Dyddiad yr eitem hynaf yw 1871, a dyddiad yr eitem fwyaf diweddar yw 1990. Mae maint ac ansawdd y wybodaeth a gedwir yn y cofnodion hyn yn golygu bod gan y casgliad botensial enfawr o ran ymchwil, a bydd yn eich galluogi i gynnal ymchwil ar bron unrhyw agwedd ar Dref Newydd Cwmbrân.

Rhai enghreifftiau o bynciau a allai fod o ddiddordeb i chi:

## Tai

Byddai Corfforaethau Datblygu yn gweithio ar bob agwedd o dai, o'r cam dylunio ac adeiladu cartrefi i'r cam lle mae tenantiaid a pherchnogion newydd yn eu meddiannu. Mae'r cofnodion yn dangos pa fathau o anheddau a adeiladwyd a ble, ynghyd â chontractau adeiladu, amcangyfrifon o'r costau, a biliau.

Roedd Corfforaeth Datblygu Cwmbrân yn canolbwyntio ar dai ar gyfer y rheini o'r cymoedd cyfagos, a chyflenwi amrywiaeth o stoc dai. Mae nifer fawr o ffotograffau yn dogfennu'r math o dai a gafodd eu hadeiladu a gellir gweld lluniau o sut oeddent yn edrych y tu fewn. Mae'r rhan fwyaf o'r ffotograffau hyn yn cael eu cadw mewn albymau wedi'u labelu ag enw'r ardal, a thu mewn, mae labeli ar lawer o'r ffotograffau yn nodi eu lleoliad:

- Albymau Ffotograffau (D6203/A/C/3470-3484)
- Ffotograffau (D6203/A/C/3362-3528)

Hefyd o ddiddordeb fyddai

- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)

## Cynllunio/Dylunio

Nid yw'r cofnodion yn stopio ar y tu allan; fe welwch ddyluniadau a ffotograffau ar gyfer y tu mewn i gartrefi, yn ogystal ag ystafelloedd arddangos ac arddangosfeydd. Mae diddordeb o'r newydd heddiw mewn dylunio o'r 1950au hyd at y 1980au, felly gellir defnyddio cofnodion y Dref Newydd i ymchwilio i'r cyfnodau.



*D6203/A/C/3370, 3387 golwg tu mewn a thu allan i dai yng Nghwmbrân*

Mae'r casgliadau yn cynnwys nifer sylweddol o bapurau sy'n ymwneud â lletyau'r gymuned newydd. Mae yna lawer o orchmynion prynu gorfodol, arolygon parcio, astudiaethau trafnidiaeth, astudiaethau poblogaeth, papurau a gohebiaeth.

- Albymau Ffotograffau (D6203/A/C/3470-3484)
- Ffotograffau (D6203/A/C/3362-3528)
- Arolygon, cynlluniau strwythur, arolygon, gorchmynion prynu gorfodol a ffeiliau gohebiaeth (D6203/A/C/1-1673)

## Cynllunio trefol

Trefi Newydd oedd y prosiectau mwyaf uchelgeisiol a gynhaliwyd erioed yn y DU o ran cynllunio trefol. Wrth astudio'r cofnodion ar gyfer Cwmbrân, gall helpu i ddatgelu pam y gwnaed penderfyniadau, a sut newidiodd cynlluniau dros amser. Mae diddordeb o'r newydd mewn egwyddorion cynllunio a luniodd Trefi Newydd gan gynnwys: cymdogaeth 15 munud lle gallwch ddiwallu'ch anghenion dyddiol gerllaw; llwybrau beicio diogel; a mannau gwyrdd wedi'u cynllunio'n dda.




*Tudalen flaen, 'Cwmbran New Town; It's concept and development', 1974 D2603/A/R1/94*

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â chynllunio trefol yn cynnwys:

- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67), D2603/C/R1/1-
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)
- Cofnodion Ymchwiliadau Cyhoeddus (D2603/A/C/97-122)
- Arolygon, cynlluniau strwythur, gorchmynion prynu gorfodol a ffeiliau gohebiaeth (D6203/A/C/1-1673)
- Mapiau a chynlluniau (D2603/A/G/1-7)





*D2603/A/C/3372 Ffotograff o'r Awyr, Cwmbrân*
*Monmouth House, D6203/A/C/3366*

## Creu cymuned

Roedd trefi newydd nid yn unig yn ymwneud â thai, ond creu cymuned gyfan. Yn ogystal â chartrefi, mae ffeiliau ar gyfer ysgolion, addysg bellach, siopau, eglwysi, y farchnad a chyfleusterau eraill. Bu llawer o drafodaeth ynglŷn ag enwau strydoedd, ac mae ffeil yn y casgliad yn cynnwys amryw o eitemau o ohebiaeth gan bobl leol yn awgrymu enwau newydd i'r strydoedd (D2603/A/C/184). Roedd y mwyafrif am i enwau'r strydoedd adlewyrchu hanes yr ardal. Hefyd o ddiddordeb fyddai'r ffeiliau gohebiaeth gyffredinol yn D2603/A/C/1-1673)

## Celf Gyhoeddus ac ymdeimlad o le

Roedd celf gyhoeddus yn nodwedd allweddol o'r Trefi Newydd, yn helpu i roi 'ymdeimlad o le' i'r trigolion newydd. Yr enwocaf yng Nghwmbrân yw Murlun Tŷ Gwent, a ddyluniwyd gan Joyce Pallot a Henry Collin.



- Ffeil weinyddol yn sôn am Furluniau Tŷ Gwent (D2603/A/C/213)
- Ffeil weinyddol yn sôn am nodweddion addurniadol canol y dref (D2603/A/C/214)
- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)

## Bywyd bob dydd

Roedd bywyd cymunedol yn ffynnu. Roedd theatrau, cymdeithasau cerddoriaeth a chlybiau chwaraeon lleol yn rhan bwysig o fywyd bob dydd. Gallwch ddarganfod mwy am yr ystod eang o glybiau a chymdeithasau yng Nghwmbrân, gan gynnwys theatrau, cymdeithas gelf a chrefft, ffermydd cymunedol, Cymdeithas Cyngherddau Sefydliad Gwent, clwb bechgyn, y sgowtiaid a llawer mwy. Roedd y ganolfan siopa yng Nghwmbrân yn adnabyddus iawn, ac roedd yn cynnwys siopau fel Marks and Spencer, BHS a Sainsburys.







*D2603/A/C/3485 Siopa yng nghanol y dref, Theatr y Congress, Sgwâr Gwent D6203/A/C/3363)*

Gellir dod o hyd i wybodaeth am fywyd bob dydd yn y cofnodion canlynol:

- Albymau Ffotograffau (D6203/A/C/3470-3484)
- Ffotograffau (D6203/A/C/3362-3528)
- Ffeiliau gohebiaeth (D6203/A/C/1-1673)
- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)

## Chwaraeon

Gwneud ymarfer corff a chadw'n heini oed wrth wraidd bod yn iach. Mae'r ffeiliau a'r ffotograffau yn cynnwys manylion nifer o glybiau chwaraeon, eu hadeiladau, digwyddiadau chwaraeon a chystadlaethau. Roedd y cyfleusterau yng Nghwmbrân yn cynnwys canolfannau chwaraeon a phyllau nofio.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am chwaraeon yn y:

- Ffeiliau gohebiaeth (D6203/A/C/1-1673)
- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)

## Gweithio yn y Dref Newydd

Roedd cyfleoedd gwaith ar gael cyn i'r Dref Newydd gael ei datblygu yng Nghwmbrân, ond daeth y datblygiad newydd â hyd yn oed mwy o ddiwydiant i'r ardal – yn cynnwys rhai cwmnïau adnabyddus iawn.




*Gweithwyr Eyelure, gyda'r Maer D2603/C/3373*

Yn cynnwys:

- Girlings Limited
- Saunders Valve
- Burtons Biscuits
- Alfa-Laval Limited
- Redifon Telecommunications
- Linpac Cans and Closures
- South Wales Electricity BoardHinchly Engineering
- Siebe Gorman Limited

Mae gennym gyfres ardderchog o ffotograffau ar gyfer arddangosfa o'r enw 'Good Things Come to Cwmbran' sy'n dangos y gwahanol fusnesau yng Nghwmbrân.




*'Good Things Come to Cwmbran' (D2603/A/C/3365)*

Mae cofnodion sy'n ymwneud â gwaith a datblygiad diwydiant yn cynnwys:

- Albymau Ffotograffau (D6203/A/C/3470-3484)
- Ffotograffau (D6203/A/C/3362-3528)
- Arolygon a ffeiliau gohebiaeth (D6203/A/C/1-1673)
- Cofnodion y Bwrdd (D2603/A/M/1-37)
- Cofnodion Pwyllgor (D2603/A/M2/1-2)
- Adroddiadau Cyffredinol (D2603/A/R1/1-67
- Adroddiadau Blynyddol (D2603/A/R2/1-36)

## Pwysigrwydd y tu hwnt i Went

Deuai ymwelwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig i weld y Trefi Newydd, a dysgu sut yr oeddent yn cael eu datblygu. Roedd gan y Trefi Newydd le amlwg iawn ym mywyd cyhoeddus yn y DU, ac mae ffotograffau a dogfennau eraill yn dangos ymweliadau Brenhinol, yn cynnwys ymweliad gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Anne ym mis Tachwedd 1971 (D2603/A/C/218)

# Sut i gael mynediad i'r casgliad

Mae catalog cofnodion Corfforaeth Datblygu Cwmbrân ar gael ar-lein, ar y Catalog Discovery (https://discovery.nationalarchives.gov.uk/) ac rydym wrthi'n gweithio i sicrhau ei fod ar gael ar ein catalog y gellir ei bori ar-lein.   Gellir defnyddio termau chwilio ac allweddeiriau i chwilio ar draws y catalog, er enghraifft

- Enwau lleoedd, strydoedd, busnesau neu unigolion. Ni fydd canlyniadau ar gyfer enwau personol heblaw bod y person dan sylw yn cael ei enwi mewn disgrifiad yn y catalog
- Math o gofnod, fel Cofnodion Corfforaeth Datblygu Cwmbrân, neu albymau ffotograffau
- Termau pynciol, fel ymchwiliad cyhoeddus, tai, chwaraeon neu hamdden

I weld y dogfennau gwreiddiol, bydd angen i chi ymweld ag Archifau Gwent, yng Nglynebwy. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ymweliadau ar ein gwefan yn https://www.gwentarchives.gov.uk/en/visiting-us/, ac mae croeso i chi gysylltu â ni ymlaen llaw ar enquiries@gwentarchives.gov.uk neu ffonio 01495 766261.
Gallwch hefyd fod yn un o'r cyntaf i glywed pan fydd y catalog yn cael ei lansio, drwy gofrestru ar gyfer ein rhestr e-bost. Cysylltwch â ni ar enquiries@gwentarchives.gov.uk i roi gwybod i ni os hoffech ymuno. Gallwch hefyd ein dilyn ar Facebook, Instagram ac X.

# Trefi newydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

Mae Cwmbrân ymhlith nifer o Drefi Newydd a adeiladwyd yn y cyfnod hwn, sydd wedi rhannu eu cofnodion yn rhan o brosiect Jerwsalem Newydd. Mae'r prosiect hwn, a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Wellcome, wedi catalogio a chadw'r cofnodion o un ar ddeg o Drefi Newydd ar ôl y rhyfel yn y DU ac Iwerddon. I ymchwilwyr, mae hyn yn botensial aruthrol i gwblhau astudiaethau sy'n cymharu sawl tref newydd. I sefydliadau sy'n ymwneud â threftadaeth, celfyddydau a diwylliant, gallwch gael ysbrydoliaeth a rhannu syniadau wrth weld y ffyrdd y mae Trefi Newydd eraill wedi defnyddio'r archifau. Ewch i wefan New Jerusalems (https://www.newjerusalems.info) i ddarganfod mwy am y Trefi Newydd eraill yn y prosiect.

# Deunyddiau darllen pellach ac adnoddau eraill

Yn Archifau Gwent, mae llyfrgell gyfeiriadurol fach ar gyfer astudiaethau lleol, sydd â nifer o lyfrau yn ymwneud â Chwmbrân a Thref Newydd Cwmbrân. Gallwch chwilio am eitemau o ddiddordeb ar https://www.gwentarchives.gov.uk/en/our-collections/library/.
Mae'r adnoddau canlynol hefyd ar gael:

## Llyfrau:

**Cwmbran New Town: A plan developed for Cwmbran Development Corporation** gan Minoprio and Spencely & P W Macfarlane (1951)

**New Towns: the rise, fall and rebirth.** Gan Katy Lock a Hugh Ellis. RIBA publishing (2020). Man cychwyn da i'r rhai sydd â diddordeb mewn Trefi Newydd yn y DU ar ôl y rhyfel. Nod y llyfr yw ceisio herio llawer o'r rhagfarnau negyddol sy'n gysylltiedig â'r Mudiad Trefi Newydd. Mae Pennod saith yn astudiaeth achos o Gwmbrân.

**Rebuilding a Valley: A History of Cwmbran Development Corporation** gan Philip Riden. Cwmbran Development Corporation (1988).

## Adnoddau Ar-lein:

**Cyngor i Lywio Adeiladau Rhestredig a Godwyd ar Ôl y Rhyfel yng Nghymru: Adroddiad i Cadw** gan Edward Holland a Julian Holder. Holland Heritage (2019)
https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019

**Papurau'r Llywodraeth Genedlaethol.** Mae'r adroddiadau, llythyrau, a dogfennau gwaith eraill a grëwyd gan weision sifil yn cael eu cadw yn yr Archifau Cenedlaethol yn Kew. Mae'r rhain wedi'u catalogio yn bennaf dan HLG (Ministry of Town and Country Planning). Mae'r Archifau Cenedlaethol hefyd yn cadw archifau corfforaethol y Comisiwn ar gyfer y Trefi Newydd a'i olynydd English Partnership. Gallwch chwilio am y rhain ar gatalog Discovery ar https://www.nationalarchives.gov.uk/help-with-your-research/research-guides/towns-and-cities/

**Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.** Mae eu catalog yn cynnwys papurau gwaith a gwaith lluniadau penseiri, cyfnodolion a llyfrau pensaernïol. Mae'r catalog ar-lein ac mae modd chwilio am ddeunydd sy'n gysylltiedig â Chwmbrân
https://www.architecture.com/contact-and-visit/riba-library

**Site record: Cwmbran** gan Susan Fielding. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (2018)
https://coflein.gov.uk/en/site/408671

**Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref.** Mae rhifynnau hanesyddol y cylchgrawn, sy'n cynnwys erthyglau am ddatblygiad Cwmbrân i'w gweld yma
https://archive.tcpa.org.uk/archive/journals

# Contact us

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cofnodion sydd gennym, neu sut i ddechrau eich ymchwil, cysylltwch â ni yn:

Archifau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Steelworks Road
Glyn Ebwy NP23 6AA
Ffôn: 01495 766261
enquiries@gwentarchives.gov.uk
www.gwentarchives.gov.uk

